Cais i bleidleisio drwy'r post

Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy'r post?

1. Llenwch y ffurflen gais pleidlais bost.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod **chi'n** cwblhau pob adran o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod.
3. Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol lleol cyn gynted â phosibl. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Noder: Dim ond etholwyr sydd (neu bydd) wedi'u cofrestru'n unigol sydd â hawl i wneud cais i bleidleisio drwy'r post. Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol i gael mwy o wybodaeth.

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. **Noder:** Mae'n rhaid i chi ddychwelyd eich cais am bleidlais bost erbyn 5pm, **11 diwrnod gwaith** cyn etholiad neu refferendwm. Os nad ydych eisoes wedi'ch cofrestru i bleidleisio, mae'n rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos **12 diwrnod gwaith** cyn y bleidlais.

Pleidleisio drwy'r post

Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiad neu refferendwm* penodol, cyfnod penodol o amser, neu ar gyfer holl bleidleisiau'r dyfodol. Gellir anfon pleidleisiau post i gyfeiriadau yn y DU a thramor.

Beth sy'n digwydd wedi i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Pan fo etholiad neu refferendwm yn mynd i gael ei gynnal, bydd eich papur pleidleisio yn cael ei anfon atoch drwy'r post. Cofiwch, efallai na chaiff eich papur pleidleisio ei anfon atoch hyd nes pedwar diwrnod gwaith cyn y bleidlais.
- Os nad yw eich papur pleidleisio wedi cyrraedd erbyn yr amser hwn, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau yn eich cyngor lleol i gael un yn ei le. Dim ond nes 5pm ar y diwrnod pleidleisio y gall y Swyddog Canlyniadau wneud hyn.
- Bydd angen i chi roi'ch dyddiad geni a llofnod ar y ffurflen gais, ac eto pan fyddwch yn defnyddio'ch pleidlais bost. Mae angen y wybodaeth hon i rwystro twyll. Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd eich pleidlais bost fel ei fod yn cyrraedd erbyn y diwrnod pleidleisio, neu ni fydd yn cael ei gyfri. Mae amlen Rhadbost wedi'i chynnwys yn eich pecyn pleidlais bost. Ond, os ydych yn anfon o dramor, bydd angen i chi dalu'r gost postio.
- Os yw hi'n rhy hwyr i chi ddychwelyd eich pleidlais yn y post, gallwch ei gyflwyno ar y diwrnod pleidleisio i'r Swyddog Canlyniadau yn eich cyngor lledol, neu mewn gorsaf bleidleisio. Cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau am fwy o wybodaeth.

* Gan refferendwm rydym yn golygu: Refferenda Cynllunio Cymdogaethau, Refferenda Treth Gyngor, Refferenda Maerol a Threfniadau Llywodraethol, pleidleisiau Cynghorol Awdurdodau Lleol. Os hoffech bleidleisio drwy'r post ar gyfer math arall o refferendwm, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Y Co s wn Ethol adol

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen mwy o ffurflenni neu fod gennych unrhyw gwestiynau ynghylch pleidleisio drwy’r post ewch i **www.fymhleidlaisi.co.uk** neu cysylltwch â’ch swyddfa gofrestru etholiadol.

Yng Nghymru a Lloegr, bydd eich swyddfa gofrestru etholiadol yn eich cyngor lleol. Yn yr Alban, gall fod yn swyddfa ar wahân.

I ddod o hyd i fanylion cyswllt, ewch i **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Nid yw’r ffurflen hon yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Ewch i **www.eoni.org.uk** am ragor o wybodaeth.

Dim ond at ddibenion etholiadol fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio’r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Byddant yn gofalu am wybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn dilyn Deddf Diogelu Data 1998. Ni fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rhoi gwybodaeth bersonol amdanoch chi i unrhyw un arall na sefydliad arall, heblaw bod yn rhaid iddynt yn ôl y gyfraith.

Cais i bleidleisio drwy'r post

Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy'r post gan ddefnyddio'r ffurflen hon. Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU**. Wedi i chi lenwi pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch ef at eich swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r cyfeiriad ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enwau cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad llawn
(lle'r ydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio)

Cod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd neu rif ffôn symudol (dewisol)

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

2 Am faint ydych chi am gael y bleidlais bost?

Rwy am bleidleisio drwy'r post ym mhob etholiad neu refferendwm (ticiwch un blwch yn unig):

☐ hyd nes i mi ddweud fel arall (pleidlais barhaol drwy'r post)

☐ yn yr etholiadau neu'r refferenda i'w cynnal ar

D D M M B B B B

☐ ar gyfer y cyfnod

o D D M M B B B B

i D D M M B B B B

3 Cyfeiriad ar gyfer y papur pleidleisio

Anfonwch fy mhapur pleidleisio i:
Cyfeiriad

Cod post

Y rheswm yr hoffwn i'm papur pleidleisio gael ei anfon at y cyfeiriad hwn, yn hytrach na'm cyfeiriad cofrestru yw:

4 Eich dyddiad geni a'ch datganiad

Datganiad: Mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth i. Rwy'n deall fod darparu gwybodaeth ffug ar y ffurflen hon yn drosedd, yn gosbadwy ar gollfarn gan garchar o hyd at 2 flynedd a/neu ddirwy.

Dyddiad geni: Ysgrifennwch eich dyddiad geni 'DD MM BBBB' yn y blychau du isod gan **ddefnyddio inc du**.

Llofnod: Llofnodwch isod gan gadw o fewn y border llwyd

Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol.

5 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw D D M M B B B B